Roedd y Cynghorydd Sir T.J. Van Rees wedi datgan diddordeb yn eitem CC14 – 2014 Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

3.	COFNODION	CC8 – 2014
-----------	------------------	-------------------

Rhoddwyd awdurdod i'r Cadeirydd lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2013 a 10 Ionawr 2014 yn gofnodion cywir.

4.	DATGANIADAU'R CADEIRYDD	CC9 – 2014
-----------	--------------------------------	-------------------

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynd i ddigwyddiad ym Machynlleth ar wahoddiad y Cynghorydd Michael Williams. Wythnos ddiwethaf, yn dilyn gwahoddiad gan Siambr Fasnach Canolbarth Cymru, bu mewn cyfarfod â'r Gwir Anrhydeddus David Jones, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Byddai'n cyfarfod â swyddogion yn fuan er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfarfod hwnnw. Yn dilyn cyfarfod y Cyngor roedd yn mynd i'r Drenewydd i gefnogi bragdy lleol i lansio cynnyrch newydd.

Croesawodd yr Arweinydd yr argymhelliad gan y Comisiwn Williams y dylai Powys barhau yn un. Cynghorodd y byddai'n trefnu cyfarfod ag arweinwyr y grwpiau i ymateb i'r Comisiwn Williams. Rhoddodd arweinydd Cynghrair Annibynnol Powys, deyrnged i'r Arweinydd Blaenorol y Cynghorydd Sir David Jones, ar y cyflwyniad ardderchog i'r Comisiwn Williams a oedd wedi cyflwyno'r achos i gadw Powys yn un.

5.	BRIFF Y PRIF WEITHREDWR	C10 – 2014
-----------	--------------------------------	-------------------

Croesawodd y Prif Weithredwr hefyd argymhelliad y Comisiwn Williams. Atgoffodd yr aelodau y byddai etholiadau Ewrop yn cael eu cynnal ar 22 Mai a'r cyfrif yn cael ei gynnal ddydd Sul 25 Mai. Dywedodd y byddai baton Gemau'r Gymanwlad yn ymweld â Llandrindod ar 25 Mai a Machynlleth ar 28 Mai. Dywedodd bod dros 350 o bobl wedi dod i'r digwyddiadau ymgynghori ynghylch y gyllideb a bod 1,000 wedi llenwi'r arolwg ar-lein. Byddai'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Cabinet ar 28 Ionawr ac roedd croeso i'r Aelodau fod yn bresennol. Fel arall, gellid trefnu sesiynau ar gyfer yr wrthbleidiau pe bai angen.

6.	NEWIDIADAU GAN YR ARWEINYDD GWEITHREDOL I'R CYNLLUN DIRPRWYO A SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL	C11 – 2014
-----------	---	-------------------

Cafodd y Cyngor adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor yn gosod y penodiadau i'r Cabinet a wnaed gan yr Arweinydd gan nodi diddymiad pŵer dirprwyedig Pwyllgor Sir Faesyfed i wneud Gorchmynion Rheoliadau Traffig Parhaol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y penderfyniad
Nodi'r adroddiad.	Yn unol â'r Cyfansoddiad.

7.	ARGYMHELLION GAN Y CABINET	C12 – 2014
-----------	-----------------------------------	-------------------

Trosglwyddiadau Cyfalaf

Ystyriodd y Cyngor argymhellion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd o ran trosglwyddiadau dros £300,000. Cadarnhaodd Deilydd Portffolio Addysg a Gwasanaethau Plant fod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer yr Achos Amlinellol Strategol dros Gampws Aberhonddu. Byddai'n rhoi'r manylion i'r Cynghorydd Sir W.T. Jones. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw newid o ran dyddiad agor Ysgol Gynradd Cleiro.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y penderfyniad
Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a	Yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan reolau

nodwyd yn yr amserlen a ffeiliwyd gyda'r cofnodion a lofnodwyd.	sefydlog.
---	-----------

8.	DYRANIADAU, ETHOLIADAU A PHENODIADAU SY'N OFYNNOL I'R CYNGOR EU CYFLAWNI	C13 – 2014
----	--	------------

Dyraniad Seddi ar gyfer Pwyllgorau

PENDERFYNWYD ar ôl adolygu cydbwysedd cynrychiolaeth gwleidyddol pob un o'r grwpiau gwleidyddol (ac wrth ystyried safle Aelodau anymochrol) ar y Pwyllgorau Cyngor perthnasol, bydd dyraniad y seddi ar y Pwyllgorau i'r grwpiau ac i'r Aelodau anymochrol yn unol ag Atodiad 5 o'r Adroddiad fel y nodir isod:-

Pwyllgor	Seddi Pwyllgor	Dyraniad Seddi - Ionawr 2014						24/01/2014		Cyfanswm Dyraniad y Seddi	+ / -
		Cyngghrair Annibynnol Powys Independent Alliance	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats	Llafur Cymru Welsh Labour	Y Grŵp Annibynnol The Independent Group	Y Grŵp Anwleidyddol Non-Political Group	Anymochrol 1	Anymochrol 2		
		(25)	(10)	(9)	(6)	(14)	(7)	(1)	(1)	(73)	
Pobl	21	7	3	3	2	4	2	0	0	21	0
Amgylchedd, Seilwaith, Trosedd a Threfn	21	7	3	3	2	4	2	0	0	21	0
Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy	21	7	3	3	2	4	2	0	0	21	0
Deddf Drwyddedu 2003	15	5	2	2	1	3	1	0	0	14	-1
Cyflogaeth ac Apeliadau	21	7	3	3	2	4	2	0	0	21	0
Archwilio	21	7	3	3	2	4	2	0	0	21	0
Gwasanaethau Democratiaid	15	5	2	2	1	3	1	0	0	14	-1
Pensiynau a Buddsoddi	5	2	1	1	0	1	0	0	0	5	0
Cyfanswm y Seddi ar y Pwyllgorau	140	47	20	20	12	27	12	0	0	138	
Cyfanswm Hawl Cyffredinol		48	19	17	12	27	13	2	2	140	
+ / -		-1	1	3	0	0	-1	-2	-2		

3
G
NODYN 1:

Cytunwyd gan y grwpiau
Dyraniad seddi'r Cyngor i Aelodau Anymochrol yn seiliedig ar argymhellion grwpiau gwleidyddol
Yn y gorffennol dyrannwyd dwy sedd yr un i Aelodau Anymochrol - 1 craffu ac 1 sedd bwyllgor arall – mae dyrannu seddi i aelodau anymochrol yn ôl doethineb y grwpiau gwleidyddol..

NODYN 2:

Nid yw Aelodau'r Cabinet yn gymwys ar gyfer seddi pwyllgorau – Ar gyfer y grwpiau sy'n cynnwys Aelodau Cabinet – bydd y modd y bydd cyfanswm y seddi yn cael eu dyrannu i Aelodau nad ydynt ar y Cabinet yn ôl eu doethineb hwy.

Penodiadau i Bwyllgorau**PENDERFYNWYD penodi'r canlynol:****Pwyllgor Craffu Pobl (21 yn ogystal ag aelodau cyfetholedig)**Cynghrair Annibynnol Powys (7)

Dawn Bailey, Rachel Davies, David Evans, Wynne Jones, Gareth Ratcliffe, Kath Roberts-Jones, Avril York

Y Grŵp Annibynnol (4)

Miss Ann Holloway, Peter Medicott, Phil Pritchard, Michael Williams

Ceidwadwyr (3)

Aled Davies, Gary Price, Tom Turner

Democratiaid Rhyddfrydol (3)

Dr Gemma Bowker, Francesca Jump, Maureen Mackenzie

Llafur (2)

Matthew Dorrance, Susan McNicholas

Y Grŵp Anwleidyddol (2)

Roche Davies, SWYDD WAG

Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, Seilwaith, a Throsedd a Threfn (21 yn ogystal ag aelodau cyfetholedig)Cynghrair Annibynnol Powys (7)

Jeff Holmes, Geraint Hopkins, E. Michael Jones, Hywel Lewis, Evan Morgan, David Price, Timothy Van Rees

Y Grŵp Annibynnol (4)

Miss Viola Evans, Dai Jones, Arwel Jones, Bob Mills

Ceidwadwyr (3)

Gwynfor Thomas, Gwilym Williams, SWYDD WAG

Democratiaid Rhyddfrydol (3)

Kelvyn Curry, Joy Jones, Kathryn Silk

Llafur (2)

Matthew Dorrance, Sarah Williams

Y Grŵp Anwleidyddol (2)

Keith Tampin. Dynodwyd un sedd ar gyfer Aelod anymochrol

Aelod Anymochrol

Huw Williams

Pwyllgor Archwilio (21 yn ogystal ag aelod cyfetholedig)Cynghrair Annibynnol Powys (7)

John Brunt, Rachel Davies, Liam Fitzpatrick, Hywel Lewis, Timothy Van Rees, Gwilym Vaughan, Joy Shearer

Y Grŵp Annibynnol(4)

Arwel Jones, Michael J Jones, Peter Medicott, Bob Mills

Ceidwadwyr (3)

Aled Davies, Chris Davies, Gwynfor Thomas

Democratiaid Rhyddfrydol (3)

Francesca Jump, John Morris, William Powell

Llafur (2)

Sandra Davies, David Thomas

Y Grŵp Anwleidyddol (2)

Roche Davies, Eldrydd Jones

Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid (15)Cynghrair Annibynnol Powys (5)

Dawn Bailey, Linda Corfield, David Evans, Kath Roberts-Jones, Gillian Thomas

Y Grŵp Annibynnol (3)

Dai Jones, Michael J. Jones, Phil Pritchard

Ceidwadwyr (2)

Peter Lewis, Tom Turner

Democratiaid Rhyddfrydol (2)

Paul Ashton, Gemma Bowker

Llafur (1)

Sandra Davies

Y Grŵp Anwleidyddol (2)

SWYDD WAG. Dynodwyd un sedd ar gyfer Aelod anymochrol.

Aelod Anymochrol

Huw Williams

Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Taccis a Hawliau Tramwy (21)Cynghrair Annibynnol Powys (7)

Linda Corfield, John Evans, David Jones, E. Michael Jones, David Price, Gillian Thomas, Tony Thomas

Y Grŵp Annibynnol (4)

Michael J. Jones, Peter Medicott, Bob Mills, Michael Williams

Ceidwadwyr (3)

Graham Jones, Peter Harris, Gwilym Williams

Democratiaid Rhyddfrydol (3)

Kelvyn Curry, Francesca Jump, Kathryn Silk

Llafur (2)

David Thomas. Dynodwyd un sedd ar gyfer Aelod anymochrol

Y Grŵp Anwleidyddol (2)

Eldrydd Jones, Keith Tampin

Aelod Anymochrol

Huw Williams

Pwyllgor Deddf Drwyddedu 2003 (15)Cynghrair Annibynnol Powys (5)

W John Evans, David Jones, David Price, Tony Thomas, Gillian Thomas

Y Grŵp Annibynnol (3)

Viola Evans, Peter Medicott, Michael Williams

Ceidwadwyr (2)

Peter Harris, Graham Jones

Democratiaid Rhyddfrydol (2)

Kelvyn Curry, Francesca Jump

Llafur (1)

David Thomas

Y Grŵp Anwleidyddol (2)

Eldrydd Jones, Keith Tampin

Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau (21)Cynghrair Annibynnol Powys (7)

John Brunt, Stephen Hayes, Gareth Morgan, Gareth Ratcliffe, Kath Roberts-Jones, Joy Shearer, Avril York

Y Grŵp Annibynnol (4) (yn ogystal ag un sedd o'r Grŵp Anymochrol)

Miss Ann Holloway, Dai Jones, Peter Medicott, Bob Mills, Michael Williams

Ceidwadwyr (3)

Peter Lewis, Gary Price, Tom Turner

Democratiaid Rhyddfrydol (3)

Paul Ashton, Joy Jones, John Morris

Llafur (2)

David Meredith, Susan McNicholas

Y Grŵp Anwleidyddol (2)

Keith Tampin. Dynodwyd un sedd ar gyfer y Grŵp Annibynnol

Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi (5)Cynghrair Annibynnol Powys (2)

Tony Thomas, Gwilym Vaughan

Y Grŵp Annibynnol (1)

Arwel Jones

Ceidwadwyr (1)

Tom Turner

Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Paul Ashton

Pwyllgor Safonau (4)Cynghrair Annibynnol Powys (1)

Stephen Hayes

Y Grŵp Anwleidyddol (1)

Peter Medicott

Ceidwadwyr (1)

Gwilym Williams

Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Maureen Mackenzie

Gweithgor TAN 8 (9)Cynghrair Annibynnol Powys (3)

John Brunt, Linda Corfield, Wynne Jones

Y Grŵp Annibynnol (3)

Graham Brown, Peter Medicott, Bob Mills

Ceidwadwyr (1)

Aled Davies

Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Paul Ashton

Llafur (1)

David Thomas

Dyraniad Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu

Nododd yr adroddiad ddyraniad y Cadeiryddion i'r ddau Bwyllgor Craffu yn unol â darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a dymuniadau'r ddau grŵp gwleidyddol y dyrannwyd y Cadeiryddion iddynt.

PENDERFYNWYD dyrannu'r Cadeiryddion ar gyfer y ddau Bwyllgor Craffu fel a ganlyn:-

Cynghrair Annibynnol Powys	Cynghorydd Sir Wynne Jones
Ceidwadwyr Cymreig	Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd

PENDERFYNWYD na fyddai dim newid i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd a bod y Cynghorydd Sir Sandra Davies yn parhau yn Gadeirydd.

Penodiadau i Banel Heddlu a Throseddau Dyfed Powys ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

PENDERFYNWYD:

- (a) ail-gadarnhau'r trefniant lle mae'r enwebiadau ar gyfer aelodau annibynnol yn cael eu gwneud gan y grwpiau annibynnol mwyaf, a
- (b) bod y grwpiau gwleidyddol annibynnol perthnasol yn rhoi'r enwebiadau angenrheidiol i'r Panel Heddlu a Throseddau ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fel a ganlyn:

Panel Heddlu a Throseddau

Cynghrair Annibynnol Powys	Cynghorydd Sir David Evans
Y Grŵp Annibynnol	Cynghorydd Sir Peter Medlicott

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynghrair Annibynnol Powys	Cynghorydd Sir Gillian Thomas
Y Grŵp Annibynnol	Cynghorydd Sir Phil Pritchard

Penodiadau i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

PENDERFYNWYD cymeradwyo dyraniad y seddi i'r grwpiau gwleidyddol ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel y nodwyd yn yr Adroddiad a phenodi'r Cynghorwyr canlynol hyd nes dyddiad y Cyfarfod Blynyddol yn 2014 yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol:-

Cynghrair Annibynnol Powys	Y Cynghorwyr Sir Jeff Holmes, Geraint Hopkins, Evan Morgan.
Y Grŵp Annibynnol	Cynghorwr Sir Michael Jones
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Cynghorwr Sir Paul Ashton
Ceidwadwyr Cymreig	Cynghorwr Sir Chris Davies
Llafur Cymru	Cynghorwr Sir David Meredith
Y Grŵp Anwleidyddol	Cynghorwr Sir Rosemarie Harris

Penodi i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

PENDERFYNWYD penodi'r Arweinydd i Gyngor Cymdeithas Leol Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cydlyn.

9.	CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR	C14 – 2014
-----------	--	-------------------

Cafodd y Cyngor gyngor gan y Swyddog Monitor ynglŷn â'r amgylchiadau pan fo gan Aelodau o bosibl diddordebau personol neu ariannol. Roedd y Cynghorydd T.J. Van Rees wedi datgan diddordeb ariannol a gadawodd y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei hystyried gan ei fod yn rhentu eiddo i denantiaid a oedd yn elwa o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2014. Roedd y cynllun arfaethedig yn cynnwys llawer o ddisgresiwn:

- Diystyru'n llwyr gyfanswm y Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel wrth gyfrifo cyfanswm incwm yr hawlwy.

- Cadw at y gofyniad sylfaenol sy'n ymestyn y cyfnod i hawlio gostyngiad o 4 wythnos pan fo rhywun yn nesu at oedran pensiwn neu'n dechrau gwaith mewn rhai amgylchiadau.
- Cadw at y gofyniad sylfaenol sy'n ôl-ddyddio cyfnod hawlio o dri mis cyn y dyddiad hawlio gwirioneddol.

Cadarnhawyd bod diffyg o £300,000 o leiaf yn yr arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru â gwir gost y cynllun. Roedd £400,000 wedi'i gynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y diffyg.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y penderfyniad
1. Yn amodol ar argymhelliad 2 isod, mabwysiadu'r Cynllun ar gyfer Ebrill 2014 fel y nodir yn "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig Cymru (2013)"	Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2014.
2. Mabwysiadu disgrisiwn y Cynllun yn ôl yr hyn a ddisgrifir yn Adran 3.2.1 a 3.2.2.	

Ymunodd y Cynghorydd Sir R.I. George â'r cyfarfod.

10.	ADOLYGU DOSBARTHADAU ETHOLIADOL A MANNAU PLEIDLEISIO	C15 – 2014
------------	---	-------------------

Yn unol â Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013, cyflawnwyd adolygiad o ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio. Ystyriodd y Cyngor adroddiad y Prif Swyddog Etholiadol a oedd yn argymhell llawer o newidiadau i'r dosbarthiadau etholiadol a'r mannau pleidleisio yn Heol Senni, Pontsenni a Llandeilo'r Fan, Llanbedr, Llangenni a Dyffryn Grwyne ac Ystradgynlais, Cynlais, Caehopkin a Phenycæ. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Etholiadol y byddai llythyrau'n cael eu hanfon at bobl yn y dosbarthiadau etholiadol dan sylw sef, BAPA (Heol Senni), BAPC (Llandeilo'r Fan) a BATA (Caehopkin), yn unol â chais yr aelodau lleol perthnasol, gan gynnig iddynt ymgeisio am bleidlais trwy'r post.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y penderfyniad:
Bod y Cyngor yn rhoi'r newidiadau ar waith i'r dosbarthiadau etholiadol a'r mannau pleidleisio fel y nodwyd yn yr adroddiad (Copi wedi'i ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd).	Cydymffurfio â'r dyletswyddau a roddir ar yr Awdurdod Lleol gan y Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013.

11.	AELOD LLYWYDDOL Y CYNGOR	C16 – 2014
------------	---------------------------------	-------------------

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n caniatáu i Gyngor ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd trwy hefyd ganiatáu i Gyngor ethol Aelod Llywyddol a Dirprwy Aelod Llywyddol. Cafodd y mater ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd ar 14 Ionawr ac argymhelliad y Pwyllgor oedd na ddylai'r Cyngor benodi Aelod Llywyddol.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y penderfyniad
Peidio â sefydlu swydd Aelod Llywyddol / Dirprwy Aelod Llywyddol yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.	Barn y Cyngor yw nad oes angen y swydd.

12.	CYFANSODDIAD Y CYNGOR	C17 – 2014
------------	------------------------------	-------------------

Cynghorodd y Cyngor fod y gwaith o ddrafftio'r Cyfansoddiad Enghreifftiol newydd yn parhau gan y ddau swyddog a Gweithgor y Cyfansoddiad, nid oedd y dyddiad gwreiddiol sef 20 Ebrill yn bosibl er mwyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfansoddiad. Dyddiad mwy realistig fyddai cyfarfod y Cyngor ar 16 Gorffennaf.

Trafododd y Cyngor y broses lle byddai'r Cyfansoddiad newydd yn cael ei gymeradwyo a chytunwyd y dylid cynnal ymgynghoriad ag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol gan dynnu sylw at newidiadau sylweddol.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y penderfyniad:
<p>Bod y Cyngor yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd sef:</p> <p>(i) Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad â holl Aelodau'r Cyngor ar y Cyfansoddiad newydd cyn i'r Cyngor ystyried ei fabwysiadu oherwydd y broses cyn-benderfynu sy'n cael ei defnyddio.</p> <p>(ii) Bydd y dyddiad er mwyn i'r Cyngor ystyried mabwysiadu fersiwn drafft terfynol y Cyfansoddiad yn newid i Orffennaf 2014.</p> <p>(iii) Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ag arweinwyr y grwpiau gan dynnu sylw at newidiadau sylweddol.</p>	<p>Symud ymlaen i newid Cyfansoddiad y Cyngor i'r Cyfansoddiad Enghreifftiol.</p>

13.	BLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR 2014	C18 – 2014
------------	--	-------------------

Cafodd y Cyngor y blaenraglen waith ar gyfer 2014. Cyfeiriodd Deilydd Portffolio yr Iaith Gymraeg at yr ymgynghoriad diweddar ynghylch Cynllun Powys yn Un a gafodd ei anfon yn uniaith Saesneg. Dywedodd y byddai'n ymrwymo i atal hyn rhag digwydd eto.

14.	HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR M.J. DORRANCE A S.C. DAVIES	C19 – 2014
------------	--	-------------------

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir Matthew Dorrance ac a eiliwyd gan y Cyngorydd Sir Sandra Davies.

Mae'r Cyngor yn nodi: Y sylwadau a wnaethpwyd gan Raquel Rolnik, Archwilwr Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Dai sef:

- Gallai polisi'r Treth Ystafell Wely olygu ymyriad ar hawl dynol i dai digonol;
- Roedd enw da Prydain am dai yn cael ei erydu oherwydd methiant i ddarparu niferoedd digonol o dai cymdeithasol fforddiadwy, ac yn fwy diweddar oherwydd effaith y diwygio lles;

a

- Nid yw'r taliad dewisol y mae Llywodraeth y DU yn darparu i gynghorau yn datrys dim byd, mae'r taliad ar gael am ychydig o fisoedd yn unig, ac ni all y cynghorau ddibynnu ar hyn yn barhaol oherwydd nid ydynt yn gwybod a fydd y taliad ar gael y flwyddyn nesaf, o ganlyniad mae hwn yn ddiwerth fel datrysiad hirdymor.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r canlynol:

- Y pwysau cynyddol ar drigolion Powys a'r Cyngor Sir
- Mae ôl-ddyledion rhent ym Mhowys wedi cynyddu 10% (data gan Bwyllgor Sir Frycheiniog)
- Mae ffigyrau gan lyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn dangos bydd y cyfanswm o fudd-dal tai sy'n cael ei dalu i landlordiaid preifat yn cynyddu o £7 biliwn i £9 biliwn.
- Y costau sylweddol i Gyngor Sir Powys wrth geisio adennill ôl-ddyledion rhent a'r costau cyfreithiol cysylltiol.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu:

1. Gweithio gyda thenantiaid, cymdeithasau tai a gwasanaethau cynghori i liniaru effeithiau'r Cymhorthdal Ystafell Sbâr / Treth Ystafell Wely;
2. Rhannu arfer da ag awdurdodau unedol ledled Cymru;
3. Addo na fydd y Cyngor hwn yn troi allan tenant nad yw'n gallu talu ei rent oherwydd pwysau ariannol a grëwyd o ganlyniad i dynnu nôl y cymhorthdal

ystafell sbâr / cyflwyno'r Dreth Ystafell Wely ac yn hytrach, datblygu cynlluniau ad-dalu fforddiadwy gyda thenantiaid;

4. Rhoi argymhellion i Lywodraeth y DU ac Aelodau Seneddol Powys, yn galw am ddiwyddymu'r polisi cymhorthdal ystafell sbâr/Treth Ystafell Wely.

Cafodd cynnig i ohirio ystyriaeth o'r cynnig ei golli pan gafwyd pleidlais ar y mater.

Cytunodd cynigydd ac eilydd y cynnig i dderbyn newid i ran pedwar y cynnig sef:

“Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ac Aelodau Seneddol Powys, yn galw am adolygiad o'r cymhorthdal ystafell sbâr/Treth Ystafell Wely.”

PENDERFYNWYD y bydd y Cyngor yn

- (i) **Gweithio gyda thenantiaid, cymdeithasau tai a gwasanaethau cynghori i liniaru effeithiau'r cymhorthdal ystafell sbâr/Treth Ystafell Wely**
- (ii) **Rhannu arfer da ag awdurdodau unedol ledled Cymru.**
- (iii) **Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ac Aelodau Seneddol Powys, yn galw am adolygiad o'r cymhorthdal ystafell sbâr/Treth Ystafell Wely.**

Cafodd trydedd rhan yr Hysbysiad o Gynnig ei cholli pan gafwyd pleidlais ar y mater.

15.	HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR D.O. EVANS A P.J. MEDLICOTT	C20 – 2014
------------	--	-------------------

Trafododd y Cyngor y cynnig a gynigwyd gan y Cynghorwyr Sir David Evans a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Peter Medlicott.

PENDERFYNWYD bod Cyngor Sir Powys yn cadarnhau bod y tir mynyddig helaeth iawn lle mae Heddlu Dyfed Powys yn gweithredu yn golygu bod ei hofrennydd yn gwbl angenrheidiol o fewn ei diriogaeth. Ni all unrhyw awyren arall gynnig y y gwasanaeth hanfodol gofynnol hwn. Mae'r Cyngor Sir felly yn gwbl gefnogol i'r Heddlu gadw ei hofrennydd ac yn galw ar yr Ysgrifennydd Cartref i awdurdodi ei gadw heb oedi.

16.	CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD	C21 – 2014
------------	--	-------------------

Cwestiwn i'r Cynghorydd Sir Steve Davies, Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gan y Cynghorydd Sir Huw Williams.

Faint o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd wedi cael cynnig cyflogaeth, prentisiaeth neu brofiad gwaith gan yr Awdurdod ers Gorffennaf 2013?

1. Cefndir Prosiect Cyflogaeth Ieuencid

a. Sefydlwyd y Rhaglen Cyflogaeth Ieuencid mewn ymgais i geisio gostwng diweithdra a mudo ymhlith yr ifanc ym Mhowys. Nodwedd ganolog o'r prosiect fydd gweithio gyda gwasanaethau yng Nghyngor Sir Powys i nodi cyfleoedd ar gyfer cyflogi pobl ifanc yn yr awdurdod trwy raglenni megis cynlluniau Prentisiaeth a Swyddi Mynediad i Raddedigion a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn sgiliau a nodwyd trwy adolygiad cynllunio'r gweithlu. Bydd y rhaglenni hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant yn y sector cyhoeddus ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Byddant yn helpu i gadw gweithlu ifanc a chyfrannu at adnewyddiad economaidd a chymdeithasol parhaus Powys.

b. Y nod yw cynnal rhaglen sy'n gweithredu ledled 4 haen:-

Haen 1 = profiad gwaith o hyd at 4 wythnos.

Haen 2 = lleoliadau hyfforddi o hyd at 6 mis (yn gysylltiedig â Thwf Swyddi Cymru a'r Farchnad Lafur Drosiannol) y nod yw gwella sgiliau cyflogadwyedd cyffredinol unigolion ac yna eu gosod ar gynllun prentisiaeth gyda chyflogwyr eraill yn y gymuned.

Haen 3 = Rhaglen Brentisiaeth ar gyfer Cyngor Sir Powys.

Haen 4 = Rhaglen Waith Mynediad i Raddedigion ar gyfer Cyngor Sir Powys.

c. Mae data'n dangos yn ystod blwyddyn academiaidd 2011-12 bod tua 800 o bobl ifanc a fudodd o Bowys yn cael eu cefnogi gan Awdurdod Addysg Lleol Powys yn ystod eu blwyddyn gyntaf o addysg uwch. Nid oes astudiaethau diweddar ar gael i ddangos faint o fyfyrwyr sy'n dychwelyd i Bowys ar ôl gorffen eu gradd. Amcangyfrifir bod colled net flynyddol ar gyfartaledd o tua 725 o bobl ifanc rhwng 17 a 20 oed oherwydd mudo a chynnydd net oherwydd mudo o 265 o bobl ifanc rhwng 21 a 24 oed.

d. O ran NEET (Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) dengys ffigyrau Powys bod 33% o'r di-waith yn bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ac felly hefyd 25% o'r rheini sy'n ddi-waith yn yr hirdymor. Amcangyfrifir yng Nghymru bod 22% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd ar gael i weithio yn ddi-waith.

e. Yn ogystal â hyn mae gan Gyngor Sir Powys weithlu sy'n heneiddio sy'n debygol o gynyddu'r bylchau mewn sgiliau. Ar hyn o bryd, mae 33% o'n gweithlu yn 50 oed a throsodd. Yn ôl yr ystadegau cenedlaethol 'The Ageing of the UK' mae Powys 4.3% yn uwch na chyfartaledd y DU wrth i chi edrych ar yr oedran canolrif (ar draws y grwpiau oedran 40-46, 47-51, 52-56, 57-61) yn ôl ardal o'u cymharu â chyfartaledd y DU.

f. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cael anhawster i recriwtio: Syrfewyr Adeiladau, Cynllunwyr, Cyfreithwyr (yn enwedig ar gyfer Cyfraith Gofal

Cymdeithasol), Rheolwyr Prosiect TGCh, Dadansoddwyr Busnes, Penseiri Technegol, Rheolwr E-fynediad i'r We, Staff Technegol Rhwydwaith/Gweinyddwyr/Rhaglenni, Uwch Ymarferwyr Amddiffyn Oedolion, Rheolwr Achosion Gwaith Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu, Gweithiwr Cymdeithasol/Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol.

Data Cyflogaeth

Ers Gorffennaf 2013, mae cyfanswm o 117 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi cael eu cyflogi mewn 119 o swyddi gan yr Awdurdod. Gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:

	16	17	18	19	20	21	22	23	24
Gwasanaethau Oedolion				1					
Gwasanaethau Busnes						1		1	
Gwasanaethau Plant									1
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth	1								
Hamdden	7	5	3	2	1	4	3	2	1
Gwasanaethau Proffesiynol a Chomisiynu	3	4	1	4	3	1		3	
Ysgolion	2	2	5	5	3	6	17	21	5

O fewn y gwasanaethau hyn mae'r swyddi'n cynnwys:

Gwasanaethau Oedolion:

Cynorthwydd Gofal Wrth Gefn
Domestig

Gwasanaethau Busnes

Gweinyddwr

Gwasanaethau Plant

Swyddog Gofal

Gweithwyr dan Hyfforddiant Gadael Gofal (lleoliad blwyddyn a ariennir gan Wasanaethau Plant) – Amgylchedd Lleol

Gweithwyr Priffyrdd x 2, Ffithwr (ar leoliad gyda JT Hughes yn y Drenwydd)

Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwybodaeth

Swyddog Cymorth Bwrdd Gwaith

Hamdden

Cynorthwywyr Hamdden

Arweinydd Ieuenctid Cynorthwyol

Cynorthwywyr Arlwyd/Gweithio yn y Bar

Hyfforddwyr Chwaraeon
 Hyfforddwyr Gweithgareddau Awyr Agored
 Glanhawr Wrth Gefn
 Glanhawyr
 Swyddog Datblygu Chwaraeon yn y Gymuned
 Rheolwr ar Ddyletswydd mewn Canolfan Hamdden

Gwasanaethau Proffesiynol a Chomisiynu

Gweinyddwr Yswiriant
 Prentisiaid – Trydanwr Goleuadau Stryd x 2, Ymarferydd Dawns, Hamdden x 3,
 Ffitiwr x 5, Gweithwyr Priffyrdd yr Amgylchedd Lleol x 4

Ysgolion

Goruchwyliwr Amser Cinio x 5
 Cynorthwywyr Addysgu x 21
 Athrawon x 23
 Athrawon Cyflenwi x 6
 Cynorthwydd Clwb ar ôl Ysgol x 5
 Gweithiwr Chwarae ar ôl Ysgol
 Cynorthwydd Lleoliad Tair Blwydd Oed

Profiad Gwaith yr Ysgol

Mae'r mwyafrif o brofiad gwaith yr ysgol yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr haf a chafodd Academi Ieuenctid Powys ei grŵp cyntaf o fyfyrwyr Profiad Gwaith ar ddiwedd mis Mehefin gyda rhagor yn dilyn ym mis Gorffennaf. Trefnwyd cyfanswm o 40 o leoliadau gan yr Academi ledled y gwasanaethau canlynol:

- Amgylchedd Lleol
- Ieuenctid
- Rheoli Adeiladu
- Cynllunio
- Hyfforddiant Technegol
- Safonau Masnach
- Iechyd Anifeiliaid
- Peirianneg
- TGCh a
- Chyfathrebu
- Llyfrgelloedd
- Gwasanaethau Diwylliannol
- Iechyd Amgylcheddol

Lleoliadau Profiad Gwaith eraill

Cafwyd y canlynol:

- Trefnwyd 8 wythnos ar leoliad gan y Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer 2 berson ifanc yn yr adran Cynnal a Chadw'r Priffyrdd, 1 yn yr adran Cynnal a Chadw Tai ac 1 yn yr adran Rheoli Adeiladu a Dysgu a Datblygu (aeth y person ifanc hwn ymlaen i gael swydd amser llawn gyda Phractis Cyfreithiol yn Aberhonddu yn dilyn ei gyfnod ar leoliad).

- *4 Lleoliad Coleg yn yr adran Gwasanaethau Cefn Gwlad, 1 yn yr adran Cyfathrebu ac 1 yn yr adran Gwasanaethau Oedolion.*
- *1 lleoliad gwirfoddol yn rhan o Safonau Masnach ac 1 yn rhan o Beirianeg Cynllunio.*

Yn ei gwestiwn atodol gofynnodd y Cynghorydd Williams am gymorth ar gyfer y prosiect cyflogaeth ieuencid.

Cwestiwn Brys

Cynghorodd Cadeirydd y Cyngor bod y cwestiwn brys canlynol wedi dod i law.

“Mae Grŵp y Ceidwadwyr, yn debyg i ran helaeth o’r Cyngor, yn anhapus am y modd y gwnaeth y Cabinet ymdrin â’r mater arfaethedig o gau’r toiledau cyhoeddus.

Rydym wedi awgrymu er lles ein cymunedau bod y penderfyniad hwn yn cael ei ohirio er mwyn cael gwybodaeth gywir a chllir.

Rydym yn gofyn i’r Arweinydd am ddatganiad cyhoeddus ar y mater.”

Ymatebodd yr Arweinydd y byddai’n cyhoeddi datganiad maes o law. Cafodd y datganiad canlynol ei gyhoeddi ar 23 Ionawr.

Bydd hwn yn rhan bwysig o’n trafodaethau â’r Cyngorau Tref a Chymuned ynglŷn â sut yr ydym yn darparu ein gwasanaethau’n lleol. Rwyf wedi gofyn i Gyfarwyddwr Strategol Adnoddau i gadarnhau sefyllfa’r trethi busnes i helpu adolygiad presennol y Cabinet o’r gwaith o ran toiledau cyhoeddus. Bydd y gwaith yn dod i ben dros yr wythnos nesaf.

Mae’r Cyngor yn wynebu her ariannol o £20miliwn na welwyd ei thebyg o’r blaen a bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Bydd hyn yn golygu gwneud arbedion wrth ddarparu cyfleusterau cyhoeddus a byddwn yn gweithio gyda Chyngorau Cymuned i nodi’r opsiynau ond mae’r gofyniad i gyflawni arbedion yn parhau.

**J.H. BRUNT
CADEIRYDD**